OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1446 (Cy. 154)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Llangynnwr i Gylchfan Pen-sarn a Chylchfan Pen-sarn i Fan i'r Gorllewin o Gylchfan Pont Lesneven, Sir Gaerfyrddin) a Chefnffordd yr A48 (I'r De-ddwyrain o Gylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 MYA a Chodi Cyfyngiadau) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym* | *25 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun, Cefnffordd yr A40 Llandeilo i Gaerfyrddin a Chefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 84(1) a (2), a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mehefin 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Llangynnwr i Gylchfan Pen-sarn a Chylchfan Pen-sarn i Fan i'r Gorllewin o Gylchfan Pont Lesneven, Sir Gaerfyrddin) a Chefnffordd yr A48 (I'r De-ddwyrain o Gylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 40 a 50 MYA a Chodi Cyfyngiadau) 2015.

**Cyfyngiadau**

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Cyfarwyddir y bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at ddibenion Adran 81 o Ddeddf 1984.

**Dirymiadau**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A48 (Cylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2009**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Codi Cyfyngiadau) (Rhif 1) 1999**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 23 Mehefin 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2009/3420 (Cy.302)
**(3)** O.S. 2000/249 (Cy.4)

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

2. Y darn o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

3. Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Lesneven.

4. Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pen-sarn.

5. Y darn o gerbytffordd tua'r de-ddwyrain Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-orllewin Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd a Chylchfan Pen-sarn.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 60 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

8. Y darn o gerbytffordd tua'r de-orllewin Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 113 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd a Chylchfan Pen-sarn.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt un cilometr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

2. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r dwyrain yr A40.

## ATODLEN 3

## HYD A LLED Y CODI CYFYNGIADAU

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 60 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Llangynnwr.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r de-orllewin Cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Llangynnwr hyd at bwynt 113 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.